

Etholiadau'n Eithrio Cymru 2007

Ailasesiad o hygyrchedd gorsafoddd
pleidleisio Cymru yn ystod etholiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007

Polls Apart Cymru 2007

A reassessment of the accessibility of
Welsh polling stations during the 2007
National Assembly for Wales election

Esther Barnett
Ruth Scott
Gwilym Morris

Hen bryd lefelu'r sgôr
Time to get equal

scope
cymru

Ynghylch parlys yr ymennydd.
Dros gydraddoldeb i bobl anabl.
About cerebral palsy.
For disabled people achieving equality.

the **pollenshop**



Cydnabyddiaeth

Mae Etholiadau'n Eithrio Cymru yn brosiect ar y cyd rhwng Scope Cymru a thîm Polisi a Materion Llywodraeth Scope.

Hoffem ddiolch i bawb a lenwodd arolwg Etholiadau'n Eithrio Cymru 2007. Gwerthfawrogir eich cymorth yn fawr.

Cawsom ein calonogi gan y gefnogaeth a roddwyd inni gan wleidyddion o bob plaid wleidyddol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol. Eto diolchwn am y gefnogaeth hon.

© Scope Cymru, Mai 2007
Cyhoeddwyd gan Scope, 6 Market Road, London, N7 9PW
Cedwir pob hawl.

Cynlluniwyd gan Adran Gwasanaethau Marchnata Scope

ISBN: 0946828784

I gael gwybod rhagor am Etholiadau'n Eithrio Cymru ewch i **www.etholiadauneithrio.org.uk** neu e-bostiwch **info@pollsapart.org.uk**

Rhoddyd cefnogaeth cysylltiadau a rheolaeth prosiect i brosiect Etholiadau'n Eithrio Cymru gan The Pollen Shop Ltd.
www.thepollenshop.co.uk

Acknowledgements

Polls Apart Cymru is a joint project between Scope Cymru and Scope's Policy & Government Affairs team.

We would like to thank everyone who completed a Polls Apart Cymru 2007 survey. Your help is very much appreciated.

We have been encouraged by the support we have been given by politicians from all the political parties, the Association of Electoral Administrators and the Electoral Commission. Again we thank you for this support.

© Scope Cymru, May 2007
Published by Scope, 6 Market Road, London, N7 9PW
All rights reserved.

Designed by Scope's Marketing Services Department

ISBN : 0946828784

To find out more about Polls Apart Cymru visit **www.pollsapartcymru.org.uk** or email **info@pollsapart.org.uk**

Communication support and project management for the Polls Apart Cymru project was provided by The Pollen Shop Ltd.
www.thepollenshop.co.uk

Cyflwyniad

Mae Etholiadau'n Eithrio Cymru 2007 yn werthusiad o hygyrchedd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Mai 2007. Ei ddiben yw canfod a yw prosesau etholiadol Cymru wedi dod yn fwy hygyrch i bleidleiswyr anabl ers yr etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru diwethaf.

Hefyd cynhaliwyd yr etholiad hwn yng nghyd-destun Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i orsafoedd pleidleisio gael eu hadolygu bob pedair blynedd; a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus hyrwyddo cyfranogiad pobl anabl mewn bywyd cyhoeddus.

Yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad hwn roeddem hefyd yn ymwybodol bod nifer o awdurdodau lleol yn hyrwyddo'r ffaith eu bod wedi gwneud gwelliannau sylweddol i hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio.

O ganlyniad, roedd gennym ddiddordeb mewn gwybod a oedd y tri ffactor hwn wedi cynorthwyo i wella mynediad pobl anabl at yr etholiad.

Cefndir

Bu Scope yn ymgyrchu ers 1992 ynghylch mater democratiaeth hygyrch. Rhoddwyd yr enw cyffredinol Etholiadau'n Eithrio i'r ymchwil cysylltiedig.

Yn 2003 crëwyd Etholiadau'n Eithrio Cymru i asesu hygyrchedd etholiadau Cymru. Ers etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2003, mae Etholiadau'n Eithrio Cymru wedi edrych ar bob etholiad pwysig a gynhaliwyd yng Nghymru.

Methodoleg ymchwil Etholiadau'n Eithrio Cymru

Seiliwyd ymchwil Etholiadau'n Eithrio Cymru ar waith caled ymgyrchwyr anabledd unigol. Mae pob ymgyrchydd Etholiadau'n Eithrio Cymru yn llenwi arolwg hygyrchedd o'r gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddir ganddynt i bleidleisio. Adwaenir hyn fel "gwerthusiad defnyddiwr". Dychwelir yr arolygon i ni, eu coladu a'u dadansoddi. Gyda'i gilydd maent yn cynorthwyo i greu darlun o hygyrchedd etholiad.

Byddwn hefyd yn cysylltu gydag awdurdodau lleol a swyddogion canlyniadau i ofyn iddynt a ydynt yn ymwybodol o unrhyw broblemau mynediad penodol neu a oes ganddynt enghreifftiau o arfer da.

Nifer yr ymatebwyr

Derbyniodd Etholiadau'n Eithrio Cymru 2007, 133 o arolygon gan ymgyrchwyr mewn 25 o etholaethau.

Introduction

Polls Apart Cymru 2007 is an evaluation of the accessibility of the elections for the National Assembly for Wales on 3 May 2007. Its purpose is to identify whether Wales' electoral processes have become more accessible to disabled voters since the last National Assembly for Wales election.

This election was also undertaken in the context of the Electoral Administration Act 2006, which requires polling stations to be reviewed every four years, and the new Disability Equality Duty, which requires public bodies to promote disabled people's participation in public life.

In the run up to this election we were also aware that several local authorities were promoting the fact that they had made significant improvements to the accessibility of polling stations.

Consequently, we were interested to know if these three factors had helped to improve disabled people's access to the election.

Background

Scope has been campaigning since 1992 around the issue of accessible democracy. This campaign and its associated research have been given the generic name of Polls Apart.

In 2003 Polls Apart Cymru was created to assess the accessibility of Welsh elections. Since the 2003 elections for the National Assembly, Polls Apart Cymru has looked at every major election held in Wales.

Polls Apart Cymru research methodology

Polls Apart Cymru research is based on the hard work of individual disability campaigners. Each Polls Apart Cymru campaigner completes an access survey of the polling stations they use to vote. This is known as a "user evaluation". Surveys are returned to us, collated and analysed. Collectively they help to build up a picture of the accessibility of an election.

We also contact local authorities and returning officers to ask if they are aware of any specific access problems or if they have any examples of good practice.

Number of respondents

Polls Apart Cymru 2007 received 133 surveys from campaigners in 25 constituencies.

Casgliadau Allweddol

Canfu Etholiadau'n Eithrio Cymru 2007 fod 70% o'r gorsafoedd pleidleisio a arolygwyd ddim yn bodloni pum prawf syml a nodir isod. Mae hyn yn cymharu gyda 77% yn Etholiadau'r Cynulliad 2003 a 70% yn yr etholiadau lleol ac Ewropeaidd 2004.

Dengys canlyniadau 2007, er bod gwelliannau wedi eu gwneud mewn rhai meysydd, bod materion mynediad sylweddol yn dal i fod. O'u cymryd gyda'i gilydd fel grŵp, mae ymchwil yn 2003, 2004 a 2007 yn dangos bod tua dwy ran o dair o orsafoedd pleidleisio Cymru yn dal yn anhygyrch.

“Mae fy merch yn defnyddio cadair olwyn ac roedd am bleidleisio ar ei phen ei hun ond ni threfnwyd dim i'w galluogi i wneud hynny. Mae hyn yn ein gwylltio ar ôl 12 mlynedd.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

Er bod hyn yn ofid, nid yw'r ystadegau cyffredinol hyn yn adlewyrchu'r newid mawr a ddigwyddodd mewn meysydd allweddol yn ymwneud â hygyrchedd yn yr etholiadau hyn. Mae llawer y gellir ei ganmol ynglŷn â gwaith y swyddogion canlyniadau. Fel y gwelwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad, bu gwelliannau sylweddol o ran mynediad corfforol i orsafoedd pleidleisio.

“Dyweddodd aelod o staff wrthyf eu bod wedi symud gorsafoedd pleidleisio oherwydd ei bod hi wedi cwyno bob blwyddyn ynglŷn â mynediad gwael yn y gorsafoedd blaenorol.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

Fodd bynnag, mae gan fwyafrif helaeth gorsafoedd pleidleisio Cymru rwystrau o hyd sy'n atal neu'n llesteirio pobl anabl rhag pleidleisio. Y rheswm pam mae'r ffigwr cyffredinol yn dal yn aros o gwmpas 70% yn ein barn ni yw bod gwelliannau mynediad wedi digwydd yn unigol. Mae mynediad corfforol i lawer o orsafoedd pleidleisio wedi gwella ond ni roddwyd ystyriaeth ddyladwy i'r amgylchedd pleidleisio yn gyffredinol ac roedd y modd y paratowyd y gorsafoedd pleidleisio yn creu rhwystrau mynediad diangen y gellid eu hosgoi.

“Treuliais tua 25 munud yn fy ngorsaf bleidleisio yn ceisio bwrw fy mhleidlais tra roedd yr amser i bleidleisio ar gyfartaledd i'm ffrindiau a'm cymdogion yn tua dau i dri munud. Y rheswm? Mae gennyf nam ar y golwg ac mae gennyf gi tywys. Nid oedd swyddog yr orsaf wedi paratoi'r orsaf bleidleisio ar gyfer UNRHYW UN heblaw pleidleiswyr abl o gorff.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio, 2007

Key findings

Polls Apart Cymru 2007 found that 70% of the polling stations that were surveyed did not meet the five simple access tests highlighted below. This compares with 77% at the 2003 Assembly Elections and 70% at the 2004 local and European elections.

The 2007 results show that while improvements have been made in certain areas, significant access issues still exist. Taken as a group, research in 2003, 2004 and 2007 indicates that about two-thirds of polling stations in Wales remain inaccessible.

“My daughter uses a wheelchair and wanted to vote by herself but nothing was set up to enable her to do this. This is infuriating after 12 years.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

Although worrying, these overall statistics do not fully reflect the step change in key areas around accessibility at this election. There is much to commend returning officers. As we will see later in the report there have been significant improvements in physical access to polling stations.

“A member of staff told me they had moved polling stations because each year she complained about bad access in the previous stations.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

However, the vast majority of polling stations in Wales still had barriers that prevent or hinder disabled people voting. The reason that the overall figure is sticking obstinately at around the 70% level is, we believe, because access improvements have taken place in isolation. Physical access to many polling stations has improved but proper consideration was not given to the overall voting environment and the way polling stations were set up created unnecessary and avoidable access barriers.

“I spent around 25 minutes at my polling station trying to cast my vote whereas the average voting time for my friends and neighbours was about two to three minutes. The reason? I have sight loss and have a guide dog. The presiding officer had not prepared the polling station for ANYONE other than able-bodied voters.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

Y pum prawf hygyrchedd

Caiff pob gorsaf bleidleisio ei hystyried ar wahân. Byddwn yn ystyried bod gorsaf bleidleisio yn hygyrch os yw'n bodloni pum prawf syml:

	2003	2007
A oes mynediad gwastad i'r orsaf bleidleisio?	46%	68%
Os oes ramp i wella mynediad, a yw wedi'i chynllunio'n briodol?	57%	73%
A oes mynediad gwastad y tu fewn i'r orsaf bleidleisio ac a oes digon o le i berson anabl symud o gwmpas?	90%	95%
A oes bwth pleidleisio lefel isel??	64%	68%
A oes fersiwn print bras o'r papur pleidleisio yn amlwg	77%	49%
Cyfanswm gorsafoedd pleidleisio anhygyrch	77%	70%

Y canlyniadau yn fwy manwl

Cofrestru i bleidleisio

Mae'r broses o gofrestru i bleidleisio yr un mor bwysig a phleidleisio ei hun. Dywedodd tua 17% o'r ymatebwyr nad oedd cofrestru i bleidleisio wedi bod yn hawdd; ac yn fwy pwysig, dywedodd 17% o'r rhai hynny a bleidleisiodd mewn gorsaf bleidleisio yn yr etholiad hwn y byddai'n well ganddynt fod wedi pleidleisio drwy'r post.

	2007
Hawdd i gofrestru i bleidleisio	83%

Mae darparu gwybodaeth mewn Saesneg plaen a Chymraeg clir ac mewn fformatau amgen yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn gallu cofrestru i bleidleisio. Mae angen rhoi sylw arbennig i grwpiau o bleidleiswyr a gaiff eu hallgau yn draddodiadol, yn cynnwys pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl ac anawsterau dysgu a phobl anabl a hŷn sy'n byw mewn lleoliadau preswyl.

Mynediad Corfforol

Mae gan bron 70% o orsafoedd pleidleisio yng Nghymru fynedfydd mynediad gwastad bellach. Mae hyn yn welliant sylweddol a dylid canmol awdurdodau lleol yng Nghymru am eu gwaith yn sicrhau bod rhagor o orsafoedd pleidleisio yn gorfforol hygyrch.

The five access tests

Each polling station is considered separately. We consider a polling station to be accessible if it meets five simple tests:

	2003	2007
Is there level access into the polling station?	46%	68%
If there is a ramp to improve access, is it appropriately designed?	57%	73%
Is there level access inside the polling station and is there enough room for a disabled person to move around?	90%	95%
Is there a low-level polling booth?	64%	68%
Is there a large print version of the ballot paper on display?	77%	49%
Total inaccessible polling stations	77%	70%

Results in more detail

Registering to vote

The process of registering to vote is just as important as voting itself. Some 17% of respondents said they did not find it easy registering to vote and, perhaps tellingly, 17% of those who said they would prefer to vote by post, voted at a polling station at this election.

	2007
Easy to register to vote	83%

Providing information in plain English and plain Welsh and in alternative formats is vital to ensuring that people are able to register to vote. Particular attention needs to be paid to groups of voters who are traditionally excluded, including people with mental health conditions and learning difficulties and disabled and older people who live in residential settings.

Physical access

Almost 70% of polling stations in Wales now have level access entrances. This is a significant improvement and local authorities in Wales should be commended for their work in ensuring more polling stations are physically accessible.

	2003	2007
Gorsafoedd pleidleisio sydd heb fynediad gwastad i'r fynedfa	54%	32%
Gorsafoedd pleidleisio sydd heb fynediad gwastad y tu fewn	10%	5%

“Arferai'r hen orsaf bleidleisio fod mewn hen neuadd y plwyf ond cafodd ei newid oherwydd problemau mynediad yn y lleoliad.”
Cyfranogwr Etholiadau'n Eithrio Cymru 2007

Mae gan bron draean o orsafoedd pleidleisio Cymru rwystrau mynediad corfforol sylweddol o hyd a allai rwystro neu atal rhywun rhag pleidleisio. Er bod mynediad yn gwella mae'n annerbyniol mewn democratiaeth leol bod rhai etholwyr yn parhau i orfod pleidleisio yn y stryd.

“Roeddwn i'n methu mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio. Daethpwyd a'r papurau pleidleisio a'r blychau pleidleisiau allan drwy ddrws allanfa ar ochr yr adeilad. Fe gwynais i.”
Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

“Dau ris serth iawn – maent yn mynd â'r bwth pleidleisio allan i bobl anabl!”
Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

“...o leiaf [roedd] cloch i'w chanu am gymorth i gael y papurau pleidleisio wedi'u cario allan.”
Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

Rampiau

Lle caiff rampiau eu defnyddio mae'n bwysig eu bod yn bosibl eu defnyddio ac yn ddiogel. Golyga hyn bod ganddynt y goledd cywir ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a phobl sydd ag amhariad symudedd a'u bod yn gadarn ac wedi'u gosod yn dynn. Roedd rampiau o ansawdd gwael yn broblem arbennig yn etholiad 2004. Eleni gwelwyd gwelliannau sylweddol ond mae un o bob pedair o rampiau yn dal i fod wedi'u cynllunio'n amhriodol.

“Roedd hi'n amhosibl defnyddio'r ramp oherwydd yr ongl 90 gradd.”
Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio, 2007

	2003	2007
Rampiau a gynlluniwyd yn amhriodol	43%	27%

	2003	2007
Polling stations without level access to the entrance	54%	32%
Polling stations without level access inside	10%	5%

“The polling station used to be the parish hall but it was changed because of access problems at the previous venue.”
Polls Apart Cymru respondent, 2007

Almost a third of polling stations in Wales still have significant physical access barriers that could prevent or hinder someone voting. Although access is improving it is unacceptable in a modern democracy that some electors still have to vote in the street.

“I was unable to get into the polling station. Both the voting papers and ballot boxes were brought outside through the exit door on the side of the building. I complained.”
Polls Apart Cymru respondent, 2007

“Two very steep steps – they take the polling booth out to disabled people!”
Polls Apart Cymru respondent, 2007

“...at least [there was] a bell to ring for assistance to have the voting papers brought out.”
Polls Apart Cymru respondent, 2007

Ramps

Where ramps are used it is important that they are useable and safe. This means that they have the correct gradient for wheelchair users and people with mobility impairments and are strong and securely fitted. Poor-quality ramps were a particular problem in the 2004 election. This year saw significant improvements but one in four of the ramps remain inappropriately designed.

“It was not possible to use the ramp due to 90 degree angle.”
Polls Apart Cymru respondent, 2007

	2003	2007
Inappropriately designed ramps	43%	27%

Ni fydd rampiau ar eu pen eu hunain yn sicrhau mynediad da; mae'n rhaid eu gosod fel rhan o amgylchedd hygyrch yn ei gyfanrwydd.

“Ramp dda i fynedfa agos ond wedyn roedd mat tu allan i'r drws yn y ffordd.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

Gosodiad yr orsaf bleidleisio

Gall gosodiad yr orsaf bleidleisio wneud y gwahaniaeth rhwng lleoliad hygyrch ac un sy'n allgau pobl. Gall gwelliannau mynediad syml yn aml wneud gwahaniaeth mawr.

“Roedd y blychau pleidleisiau yn rhy uchel i mi allu rhoi'r pleidleisiau ynddynt.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

	2003	2007
Gorsafoedd pleidleisio heb fwth pleidleisio lefel isel	36%	32%

Mae'r nifer o orsafoedd pleidleisio sydd â bythau pleidleisio lefel isel wedi cynyddu ond cawsom ein synnu nad oedd y cynnydd hwn yn fwy.

“Roedd mynediad drwy allanfa wedi'i labelu'n glir ar gyfer pobl anabl ond doedd dim bwth lefel isel ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

“Doedd dim bwth pleidleisio lefel isel yn yr orsaf. Pan ofynnwyd, dywedodd y staff fod un i gael ond ei fod wedi torri.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

“Coridor cul – drysau trwm – dim bwth pleidleisio lefel isel – blwch pleidleisio yn rhy uchel i'w gyrraedd o gadair olwyn.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

“Dim bwth lefel isel i ddefnyddwyr cadair olwyn.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio, 2007

Gwybodaeth hygyrch

Mae Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob gorsaf bleidleisio arddangos copi print bras o'r papur pleidleisio i gynorthwyo pleidleiswyr sydd â nam ar y llygad. Mae hwn yn un o'r gofynion statudol symlaf ac roeddem ni wedi'n synnu ac yn siomedig bod hanner y gorsafoedd a archwiliwyd heb gydymffurfio ag ef.

Ramps on their own will not guarantee good access; they have to be set up as part of a holistically accessible environment.

“Good ramp to near entrance but then an outside doormat was in the way.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

The arrangement of the polling station

The arrangement of the polling station can make the difference between an accessible venue and one that excludes people. Simple access improvements can often make a big difference.

“The ballot boxes were too high for me to be able to put the ballots in the boxes.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

	2003	2007
Polling stations without a low-level polling booth	36%	32%

The number of polling stations with low-level polling booths has increased but we were surprised that this increase was not greater.

“There was access through the exit clearly labelled for disabled people but there wasn't a low-level booth for wheelchair users.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

“There was no low-level polling booth in the station. When asked, staff member said there was one but it was broken.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

“Corridor narrow – doors heavy – no low-level polling booth – ballot box too high to reach from a wheelchair.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

“No low-level booth for wheelchair users.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

Accessible information

The Electoral Administration Act requires all polling stations to display a large print copy of the ballot paper to assist voters with visual impairments. This is one of the simplest statutory requirements and we were surprised and disappointed that half of all the polling stations surveyed did not comply with it.

	2003	2007
Gorsafoedd Pleidleisio heb gopi print bras o'r papur pleidleisio	23%	51%

“Roedd chwyddwydr yno (ar gyfer papur pleidleisio print bras) ond heb ei arddangos.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

Dengys ein hymchwil, er bod gan lawer o'r gorsafoedd pleidleisio bapurau pleidleisio print bras, nid oedd y mwyafrif o'r gorsafoedd pleidleisio a archwiliwyd wedi arddangos y papurau yn amlwg neu o gwbl.

“Wrth i mi ofyn am fy slipiau pleidleisio mewn print bras, aeth i ffwdan llwyr, gan dwrio ymhlith papurau y tu ôl iddo a fy ngadael i yn sefyll yn ffordd pawb, heb hyd yn oed fy nghymryd i un ochr yn dawel. Llwyddodd i ddod o hyd i UN papur pleidleisio mewn print bras ond ni allai ddod o hyd i'r llall. Cynigiodd fersiwn Braille i mi gan ei fod dan yr argraff (anghywir) bod pawb sydd â nam ar y golwg yn gallu ei ddarllen.”

Ymatebydd Etholiadau'n Eithrio Cymru, 2007

Sut hoffech chi bleidleisio?

Mae systemau seiliedig ar bapur hir sefydledig fel gorsaf bleidleisio a phleidleisio drwy'r post yn nodweddiadol anhygyrch i rai grwpiau o bleidleiswyr. Mewn blynyddoedd diweddar bu nifer o gynlluniau peilot e-bleidleisio sydd wedi treialu dulliau newydd o bleidleisio gan ddefnyddio'r rhynggrwyd, ffôn neu neges SMS/testun, sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd a'r gallu i deilwria'r rhyngwyneb y defnyddiwr i fodloni anghenion mynediad arbennig unigolyn.

Yn ddiddorol dywedodd 17% o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddynt bleidleisio gan ddefnyddio system e-bostio (h.y. drwy'r rhynggrwyd, dros y ffôn neu neges SMS/testun). Awgryma hyn bod awydd ymhlith pobl anabl yng Nghymru i roi cynnig ar ddulliau newydd o bleidleisio.

	2007
Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio	64%
Pleidleisio drwy'r post	18%
E-bleidlais (rhynggrwyd, ffôn neu neges SMS/testun)	17%

	2003	2007
Polling stations without a large print copy of the ballot paper	23%	51%

“Magnifying lenses there (for large print ballot paper) but not displayed.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

Our research showed that while many polling stations did have large print ballot papers, the majority of polling stations surveyed did not display the papers prominently, or at all.

“Upon requesting my voting slips in large print, he went into a complete 'faff', rifling around in papers behind him and just leaving me standing in everyone's way, not even taking me to one side discreetly. He managed to produce ONE voting slip in large print but couldn't find the other one. He did offer me Braille being under the impression (false) that everyone with sight loss can read it.”

Polls Apart Cymru respondent, 2007

How would you like to vote?

Established paper-based voting systems like polling station and postal voting are inherently inaccessible to some groups of voters. In recent years there have been a number of e-voting pilots that have tested new methods of voting using the internet, telephone and SMS/text message, which offer greater flexibility and the ability to tailor the user interface to meet an individual's particular access needs.

Interestingly 17% of respondents said they would prefer to vote using an e-voting system (i.e. via the internet, telephone or SMS/text message). This suggests that there is appetite amongst disabled people in Wales to try new methods of voting.

	2007
Vote at a polling station	64%
Vote by post	18%
E-vote (internet, telephone or SMS/text message)	17%

Casgliad

Er bod rhai datblygiadau cadarnhaol iawn roedd y canlyniadau ar y cyfan yn siomedig. Roedd hyn yn fwy o siom fyth gan fod llawer o'r rhwystrau mynediad y daeth pobl ar eu traws yn rhai a fyddai'n hawdd i'w hosgoi.

Mae gan bron 70% o orsafoedd pleidleisio yng Nghymru bellach fynedfeydd mynediad gwastad ac mae gan 95% fynediad gwastad a gofod digonol y tu fewn i symud o gwmpas. Mae hyn yn welliant arwyddocaol a dylid canmol awdurdodau lleol yng Nghymru am eu gwaith yn sicrhau bod rhagor o orsafoedd pleidleisio yn gorfforol hygyrch.

Fodd bynnag golyga hyn o hyd bod gan 30% o orsafoedd pleidleisio broblemau mynediad corfforol; felly mae angen gwelliannau pellach i wneud pob gorsaf pleidleisio yng Nghymru yn hygyrch. Mae un person sy'n gorfod pleidleisio ar y stryd yn un yn ormod.

Er gwaetha'r tuedd cadarnhaol hwn mae'r ystadegau hygyrchedd cyffredinol yn dangos bod gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn dioddef gan rwystrau mynediad eraill; llawer ohonynt sydd yn hawdd eu dileu.

Mae methiant i wneud pethau syml megis rhoi'r blwch pleidleisio o fewn cyrraedd defnyddiwr cadair olwyn a diffyg sgriniau pleidleisio lefel isel i gyd yn gwneud bywyd yn fwy anodd ac yn fwy o straen i bleidleiswyr anabl ac yn eu gwneud yn ddianghenraid ddibynnol ar eraill. Adroddodd pleidleiswyr byddar a rhai a nam ar y golwg yn arbennig bod ystod o rwystrau mynediad y gellir fod wedi'u hosgoi yn hawdd. Dylai fod gan bawb yr hawl i fwrw'u pleidlais yn annibynnol ac yn gyfrinachol ac ni ddylai pobl anabl fod yn eithriad o gwbl.

Roedd darganfod fod dros hanner y gorsafoedd pleidleisio a arolygwyd wedi torri'r gofyniad statudol i arddangos hysbysiad print bras yn rhywle y gellid ei weld yn hawdd o bryder mawr ac mae'n gymorth i esbonio'r diffyg gwelliant ystadegol yng nghanlyniadau eleni.

Mae'r 'Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd' newydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo cydraddoldeb pobl anabl a'u cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon bydd angen i awdurdodau lleol ystyried mynediad at y broses pleidleisio mewn modd holistig, gan ganolbwyntio nid dim ond ar yr amgylchedd ffisegol ond hefyd ar ddarparu gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth fel y gall pobl gyfranogi'n gydradd.

Gobeithiwn y bydd y Ddeddf Gweinyddiaeth Etholiadol newydd hefyd yn golygu y bydd awdurdodau lleol yn dechrau cymryd ymagwedd fwy strategol tuag at wella mynediad fel y gall gwelliannau gael eu cynllunio'n gynyddraddol, ar y cyd gyda phobl anabl, ac y gellir rhannu arfer da yn effeithiol o fewn awdurdodau.

Conclusion

Though there were some very positive developments the overall results were disappointing. All the more so because many of the access barriers people encountered were easily avoidable.

Almost 70% of polling stations in Wales now have level access entrances and 95% have level access and adequate space to move around inside. This is a significant improvement and local authorities in Wales should be commended for their work in ensuring more polling stations are physically accessible.

However, this still means that 30% of polling stations have physical access problems; so further improvements are needed to make every polling station in Wales accessible. One person who has to vote in the street is one too many.

Despite this positive trend the overall accessibility statistics reveal that polling stations in Wales are being let down by other access barriers, many of which are very easy to remove.

Failure to do simple things like putting the ballot box within reach of a wheelchair user and a lack of low-level voting screens all make life more difficult and stressful for disabled voters and make them unnecessarily dependent on others. Deaf and visually impaired voters in particular reported a range of access barriers that could have easily been avoided. Everyone should have the right to vote independently and in secret and disabled people should be no exception.

The finding that over half of all polling stations surveyed contravened the statutory requirement to display the large print notice somewhere where it can be seen easily is of major concern and helps to explain the lack of statistical improvement in this year's results.

The new 'Disability Equality Duty' requires public authorities to promote disabled people's equality and participation in public life. To fulfil this duty local authorities will need to consider access to the voting process in a holistic sense, focusing not just on the physical environment but also on providing appropriate information, help and support so people can participate as equals.

We hope the new Electoral Administration Act also will also mean local authorities start to take a more strategic approach to improving access so improvements can be planned incrementally, together with disabled people, and good practice shared effectively within authorities.

Yn olaf mae'r awydd sydd i'w weld ymhlith pobl anabl am ddulliau newydd o bleidleisio yn rhoi cyfle i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried ymagweddau mwy modern ac arloesol at gynnal etholiadau, y gellir eu gwneud yn wirioneddol hygyrch i bawb o'r dechrau.

Argymhellion

Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Ariannu rhaglen hyfforddi ar gyfer gweinyddwyr etholiadol i'w galluogi i fodloni anghenion mynediad pleidleiswyr anabl yn well, yn enwedig y pleidleiswyr sydd yn fyddar a rhai â nam ar y golwg a'r rhai hynny sydd ag amhariadau lluosog.
- Creu gwobr am yr orsaf bleidleisio fwyaf hygyrch a'r orsaf bleidleisio oedd wedi gwella fwyaf yng Nghymru. Dylid cynnal hon fel rhan o'r adolygiad pedair blynedd i orsafoedd pleidleisio sy'n ofynnol gan Ddeddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006.
- Cynnal cynllun peilot e-bleidleisio yng Nghymru i dreialu systemau newydd, cwbl hygyrch o bleidleisio a hyrwyddo hyn i bleidleiswyr anabl.

Awdurdodau Lleol

- Parhau'r cynnydd da a wneir tuag at sicrhau bod pob gorsaf bleidleisio yn gorfforol hygyrch. Mae un person sy'n gorfod pleidleisio ar y stryd yn un yn ormod.
- Datblygu cysylltiadau ffurfiol gyda grwpiau lleol o bobl anabl i gynorthwyo gydag adolygu'r manau pleidleisio a gwerthuso mynediad at y broses bleidleisio yn gyffredinol. Canolbwyntio yn benodol ar grwpiau o bobl anabl anodd eu cyrraedd megis y rhai â chyflyrau iechyd meddwl ac anawsterau dysgu a phobl anabl a hŷn sy'n byw mewn sefyllfaoedd preswyl.
- Sicrhau bod pob gwybodaeth pleidleisio wedi'i gyhoeddi mewn Saesneg plaen a Chymraeg clir ac yn cynnwys gwybodaeth glir ar sut i ofyn am gymorth pellach.
- Paratoi cofrestr o adeiladau hygyrch yn ardal yr awdurdod lleol sy'n addas i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

- Darparu grantiau i ariannu rampiau parhaol, yn hytrach na rampiau dros dro, sydd gan amlaf yn anhygyrch, yn aml yn anniogel a heb fod yn gost effeithlon yn y tymor hir.
- Gweithredu i fynd i'r afael a'r lefel bryderus o ddiffyg cydymffurfio gyda'r dyletswyddau statudol i ddarparu dyfais bleidleisio gyffyrddol ac arddangos copi print bras o'r papur pleidleisio fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

Finally, the burgeoning appetite amongst disabled people for new methods of voting gives the National Assembly of Wales an opportunity to consider more modern, innovative approaches to running elections, which can be made truly accessible to all from the outset.

Recommendations

Welsh Assembly Government

- Fund a training programme for electoral administrators to enable them to better meet the access needs of disabled voters, especially deaf and visually impaired voters and those with multiple impairments.
- Create an award for the most accessible polling station and the most improved polling station in Wales. Run this as part of the four-yearly review of polling stations required by the Electoral Administration Act 2006.
- Run an e-voting pilot in Wales to trial new, fully accessible systems of voting and promote this to disabled voters.

Local Authorities

- Continue the good progress being made towards ensuring all polling stations are physically accessible. One person who has to vote in the street is one too many.
- Develop formal links with local groups of disabled people to assist with the review of polling places and evaluate access to the voting process overall. Focus in particular on hard-to-reach groups of disabled people such as those with mental health conditions and learning difficulties and disabled and older people who live in residential settings.
- Ensure all voting information is produced in plain English and plain Welsh and includes clear information on how to request further assistance.
- Compile a register of accessible buildings in the local authority area that are suitable for use as polling stations.

Ministry of Justice

- Provide grants to fund permanent ramps, rather than temporary ramps, which are largely inaccessible, often unsafe and not cost-effective in the long term.
- Take action to address the worrying level of non-compliance with the statutory duties to provide a tactile voting device and display a large print copy of the ballot paper as specified in the Representation of the People Act 2000.

Methodoleg ymchwil Etholiadau'n Eithrio Cymru

Seiliwyd ymchwil Etholiadau'n Eithrio Cymru ar waith caled ymgyrchwyr anabledd unigol. Mae pob ymgyrchydd Etholiadau'n Eithrio Cymru yn llenwi arolwg hygyrchedd o'r gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddir ganddynt i bleidleisio. Adwaenir hyn fel 'gwerthusiad defnyddiwr'. Dychwelir yr arolygon i ni, eu coladu a'u dadansoddi. Gyda'i gilydd maent yn cynorthwyo i greu darlun o hygyrchedd etholiad.

Byddwn hefyd yn cysylltu gydag awdurdodau lleol a swyddogion canlyniadau i ofyn iddynt a ydynt yn ymwybodol o unrhyw broblemau mynediad penodol neu a oes ganddynt enghreifftiau o arfer da.

Arolwg Etholiadau'n Eithrio Cymru 2007

Er mwyn cymharu canlyniadau gwnaethom ofyn yr un cwestiynau yn arolwg Etholiadau'n Eithrio 2007 ag a wnaethom yn 2003. Gofynnem i'n hymgyrchwyr edrych ar 30 mater mynediad allweddol. Galluogodd hyn ni i asesu a oedd hygyrchedd wedi gwella.

Datblygwyd arolwg Etholiadau'n Eithrio Cymru 2007 ymhellach, yn seiliedig ar ymgynghoriad gydag ymgyrchwyr a Gweinyddwyr Etholiadol. Fel yn 2004, cynhwyswyd nifer o gwestiynau ychwanegol er mwyn lleoli'r gorsafoedd pleidleisio penodol. Gwnaed hyn yn dilyn sgysiau gyda Gweinyddwyr Etholiadol a nododd y byddai'n gymorth pe byddem yn gallu gwneud mwy i ddynodi lleoliad gorsafoedd pleidleisio anhygyrch.

Prosesu'r ymchwil

Yn ganolog i'r ymgyrch oedd gwefan hygyrch. Gallai ymgyrchwyr lawrlwytho arolygon, nodiadau cyfarwyddyd ac ychwanegu eu canlyniadau ar-lein yn uniongyrchol. Roedd dau safle cyfochrog: www.pollsapartcymru.org.uk ac un cyfatebol yn y Gymraeg www.etholiadauneithrio.org.uk. Cynhyrchwyd yr holl ddeunydd hefydar bapur, yn ddwyieithog, ac mewn fformatau amgen.

Crynodeb o'r canlyniadau

Derbyniodd Etholiadau'n Eithrio Cymru 2007 133 o arolygon gan ymgyrchwyr mewn 25 etholaeth.

Ffafrio pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio	64%
Ffafrio pleidleisio drwy'r post	18%
Ffafrio e-bleidleisio (e.e. dros y rhyngwyd, y ffôn neu drwy SMS/neges testun)	17%

Polls Apart Cymru research methodology

Polls Apart Cymru research is based on the hard work of individual disability campaigners. Each Polls Apart Cymru campaigner completes an access survey of the polling stations they use to vote. This is known as a 'user evaluation'. Surveys are returned to us, collated and analysed. Collectively they help to build up a picture of the accessibility of an election.

We also contact local authorities and returning officers to ask if they are aware of any specific access problems or if they have any examples of good practice.

Polls Apart Cymru 2007 survey

In order to compare results, we asked the same questions in the 2007 Polls Apart Cymru survey as in 2003. We asked our campaign volunteers to look at 30 key access issues. This enabled us to assess whether accessibility had improved.

The Polls Apart Cymru 2007 survey was developed further, based on consultation with campaigners and Electoral Administrators. As in 2004, a number of additional questions were included to locate the exact polling stations. This was done following conversations with Electoral Administrators who had indicated that it would be helpful if we could do more to identify the location of inaccessible polling stations.

Processing the research

Central to the campaign was an accessible website. Campaigners could download surveys, guidance notes and input their results online. There were two parallel sites: www.pollsapartcymru.org.uk and a Welsh language equivalent www.etholiadauneithrio.org.uk. All material was also produced on paper, bilingually and in alternative formats.

Breakdown of results

Polls Apart Cymru 2007 received 133 surveys from campaigners in 25 constituencies.

Prefer to vote at a polling station	64%
Prefer to vote by post	18%
Prefer to e-vote (e.g. by internet, telephone or SMS/text message)	17%

	Ydyw / Oes	Nac Ydyw / Nac Oes
A oedd hi'n hawdd cofrestru i bleidleisio?	83%	17%
A yw'r orsaf bleidleisio yn llai na ½ milltir o'r man yr ydych yn byw?	83%	17%
A oes lle parcio dynodedig ar gyfer pleidleiswyr anabl yn agos at yr orsaf bleidleisio?	43%	57%
A oes mynediad gwastad i'r orsaf bleidleisio?	68%	32%
Os oes ramp i wella mynediad a yw wedi'i chynllunio'n briodol?	73%	27%
A oes mynediad gwastad yn yr orsaf bleidleisio lle gall person anabl symud o gwmpas yn hawdd a diogel?	95%	5%
A oes bwth pleidleisio lefel isel?	68%	32%
A oes fersiwn print bras o'r papur pleidleisio yn cael ei arddangos?	49%	51%
A oes dyfais gyffwrdd pleidleisio i helpu pleidleiswyr gyda nam ar y golwg i bleidleisio'n annibynnol?	72%	28%
A yw'r orsaf bleidleisio wedi'i goleuo'n dda?	91%	9%
A yw staff yr orsaf bleidleisio yn barod i helpu ac yn gyfeillgar?	94%	6%

Manylion cyswllt

Scope Cymru
Y Lanfa
Ffordd y Sgwner
Caerdydd
CF10 4EU

Ffôn: **029 20 461703**
E-bost: **mail@scopecymru.org.uk**
www.scope.org.uk

	Yes	No
Was it easy to register to vote?	83%	17%
Is the polling station less than ½ a mile from where you live?	83%	17%
Is there designated parking for disabled voters close to the polling station?	43%	57%
Is there level access into the polling station?	68%	32%
If there is a ramp to improve access is it appropriately designed?	73%	27%
Is there level access inside the polling station and can a disabled person move around easily and safely?	95%	5%
Is there a low-level polling booth?	68%	32%
Is there a large print version of the ballot paper on display?	49%	51%
Is there a tactile voting device to help visually impaired voters vote independently?	72%	28%
Is the polling station well-lit?	91%	9%
Are polling station staff helpful and friendly?	94%	6%

Contact details

Scope Cymru
The Wharf
Schooner Way
Cardiff
CF10 4EU

Telephone: **029 20 461703**
Email: **mail@scopecymru.org.uk**
www.scope.org.uk

Scope

Gellwch cefnogi gwaith Scope mewn nifer o ffyrdd. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.scope.org.uk/support

Am ragor o wybodaeth a chyngor ar barlys yr ymennydd, materion anabledd a gwasanaethau Scope, ymwelwch ag **Ymateb Scope** ar www.scope.org.uk neu galwch **0808 800 3333**.

Scope

You can support Scope's work in a number of ways by going to www.scope.org.uk/support

For information and advice on cerebral palsy, disability issues and Scope's services, visit **Scope Response** at www.scope.org.uk or call **0808 800 3333**.

Hen bryd lefelu'r sgôr
Time to get equal

scope
cymru

Ynghylch parlys yr ymennydd.
Dros gydraddoldeb i bobl anabl.
About cerebral palsy.
For disabled people achieving equality.

581106.07/KT